



Adroddiad ar yr amserlen ar gyfer ystyried y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)

1. Ar 29 Ebrill 2013, cafodd Bil Llywodraeth, 'Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)', ei gyflwyno yn y Cynulliad.
2. Ar 16 Ebrill 2013, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 26.9, i gyfeirio'r Bil at y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, er mwyn iddo ystyried yr egwyddorion cyffredinol a chyflwyno adroddiad arnynt.
3. Yn unol â Rheol Sefydlog 26.7, trefnodd y Pwyllgor Busnes amserlen i'r Pwyllgor ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chytunodd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad i'r Cynulliad erbyn 19 Gorffennaf 2013.
4. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylid cwblhau trafodion Cyfnod 2 erbyn 8 Tachwedd 2013, ar yr amod bod y Cynulliad yn cytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil.